Grŵp Llywio Partneriaeth Economaidd Gwynedd

Dyddiad:	25 Ionawr 2008
Amser:	10:00 (paned ar gael o 09:45)
Lleoliad:	Neuadd Craflwyn, Nantgwynant, Beddgelert

Mynychwyr:

Aelodau'r Grŵp Llywio neu eilyddion enwebedig

Sylwebyddion

Ysgrifenyddiaeth y Bartneriaeth

Gwesteion:

Gary Draisey	Ymgynghorydd Interfleet Technology Ltd

Ariennir a hwylusir Gweithredu dros Gymunedau Gwledig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Rural Community Action is funded and facilitated by the Welsh Assembly Government

Grŵp Llywio Partneriaeth Economaidd Gwynedd - 25 Ionawr 2008

RHAN UN: MATERION BUSNES

01. Ymddiheuriadau

02. Datganiadau o ddiddordeb personol

03. Cofnodion Grŵp Llywio 23 Tachwedd 2007 (amgaeedig - *papur glas*):
    - Cywiro a chadarnhau
    - Unrhyw fater nad yw'n ymddangos ar y Rhaglen

04. Is-Grwpiau'r Bartneriaeth - adroddiad (amgaeedig - *papur melyn*):
    - Llwyddo'n Lleol
    - Cefnogi Busnes
    - Sgiliau
    - Datblygu Gwledig
    - Adfywio Cymunedol

05. Adolygiad blynyddol o Aelodaeth Grŵp Llywio Partneriaeth Economoaidd Gwynedd - eitem llafar

06. Rhaglen waith 2008 Grŵp Llywio Partneriaeth Economaidd Gwynedd (papur i'w gyflwyno ar y dydd)

RHAN DAU: MATERION STRATEGOL

07. Diweddariad ar Bolisi Economiadd-Cymdeithasol yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear - Dr John Idris Jones, Pennaeth Datblygiad Economaidd-Cymdeithasol Gogledd Cymru, Magnox North.

08. Materion Gofodol - adroddiad (papur i ddilyn yn sgil cyfarfod Grŵp Swyddogion Cynllun Gofodol Gogledd Orllewin Cymru ar 18 Ionawr)

09. Rhaglenni Ewropeaidd Cymru:
    - adroddiad gweithgaredd (amgaeedig - *papur oren*)
    - diweddariad gan swyddogion Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a Llywodraeth y Cynulliad

10. Amlinelliad o gynllun ail ddatblygu rheilffordd Blaenau Ffestiniog - Trawsfynydd - Gary Draisey, Ymgynghorydd, Interfleet Technology Ltd

11. Unrhyw fater arall

12. Dyddiad a lleoliad cyfarfod nesaf y Grŵp Llywio

    Bydd cinio yn cael ei ddarparu wedi'r cyfarfod

Cofnodion Grŵp Llywio 23 Tachwedd 2007

COFNODION

Grŵp Llywio Partneriaeth Economaidd Gwynedd

Dyddiad:		23 Tachwedd 2007
Amser:		10:00 - 13:00
Lleoliad:		Plas Tan y Bwlch, Maentwrog

Presennol:

Cynrychiolwyr y Sector Breifat

Dewi Lewis	*Cadeirydd*	Siop Dewi
Tim Knight		Academi Sgiliau Niwclear
Rhys Davies		Camre Cymru
Geraint Wyn Parry		Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
Gwynedd Watkin		Undeb Amaethwyr Cymru
Anne Lloyd Jones		Twristiaeth Canolbarth Cymru
Sian M Williams	(*Eilydd)*	Griffith Williams a'i Gwmni
Robert O'Regan	(*Eilydd)*	Parker, O'Regan, Tann &Co
Evie Wyn Jones	(*Eilydd)*	Busnes Eryri Cyf.
John A Morris	(*Eilydd)*	J Morris

Cynrychiolwyr y Sector Wirfoddol

Bethan Russell Owen		Mantell Gwynedd
Catrin Lloyd Perry		Coleg Harlech / WEA
Alex Badley		Gwynedd Gynaliadwy
Menna Jones	*Is-Gadeirydd*	Antur Waunfawr

Cynrychiolwyr y Sector Gymunedol

Llŷr Huws Gruffydd		Menter a Busnes
Tad Deiniol		Yn Ein Blaenau
Merfyn Williams		Cyngor Cymuned Llanfrothen (ar ran Cynghorau Tref a Chymuned Gwynedd)
Keneuoe Morgan	(*Eilydd)*	Deudraeth Cyf.

Cynrychiolwyr y Sector Gyhoeddus

David Joyner	Prifysgol Bangor
Emyr Williams	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Sylwebyddion

Dim

Swyddogion yr Ysgrifenyddiaeth (Cyngor Gwynedd)

Sioned Williams	Pennaeth Gwasanaeth Economi ac Adfywio
Dylan Griffiths	Rheolwr Cynllunio Strategol ac Ariannu
Rhys Evans	Penswyddog Ewrop
Colin Morris	Pen Swyddog Cefnogi Busnes
Nia Swann	Swyddog Datblygu Llwyddo'n Lleol

Gwesteion

Janet Roberts	Cydlynydd Strategaeth Gofal Iechyd a Lles Cyngor Gwynedd

MATERION BUSNES

01 Ymddiheuriadau

Nodwyd fod ymddiheuriadau wedi eu derbyn gan Peter Clarke (TUC Cymru), Ann Rubji (Llywodraeth Cynulliad Cymru), Trefor Jones (Llywodraeth Cynulliad Cymru), Fiona Williams (Gyrfa Cymru), Dyfed Edwards (Antur Nantlle), Ieuan Ellis (Llywodraeth Cynulliad Cymru), Sian Hope (Prifysgol Bangor), Wendy Crisp (Yr Hwylfan), Janet Jones (Llywodraeth Cynulliad Cymru), Dorothy Hughes (Unllais Cymru), Godfrey Northam (Cyngor Cymuned Bethesda), Vivienne Pritchard (Cyngor Gwynedd) a Sian Lloyd Roberts (Cyngor Gwynedd)

02. Datganiadau o ddiddordeb personol

DIM

03. Cofnodion y cyfarfod 11 Hydref 2007

Trafodaeth:

i). Ychwanegu Ann Lloyd Jones a Sian M Williams i'r rhestr ymddiheuriadau.

Casgliadau:

ii) **Cytunwyd** i gofnodion cyfarfod 11 Hydref 2007

Tasgau:

DIM

04. Is-grwpiau'r Bartneriaeth

Trafodaeth: Llwyddo'n Lleol

i) Cyflwynwyd y diweddiad gan Nia Swann. Nodwyd yn benodol pryder fod y nifer oedd yn mynychu'r Is-grŵp yn edwino a bod bwriad cynnal gweithdy o'r aelodau i ymchwilio i'r rhesymau. Tynnwyd sylw'r Aelodau i ganlyniadau'r cynllun hyd at ddiwedd ail chwarter 2007/2008.

ii) Llongyfarchwyd yr Is-grŵp ar gyflawniad y cynllun.

Trafodaeth: Cefnogi Busnes

iii) Diweddarwyd Aelodau'r Grŵp Llywio gan Colin Morris. Nodwyd nad oedd cyfarfod o'r Is-grŵp wedi cynnal ers cyfarfod olaf Grŵp Llywio'r Bartneriaeth ond fod diweddariad wedi ei gyflwyno i hysbysu Aelodau ar gyflawniad Pecyn Busnes Gwynedd ac i'w hysbysu fod peth cyllid ychwanegol wedi derbyn.

iv) Adroddwyd fod gweithgor o'r Is-grŵp wedi cwrdd i ystyried trefniadau Wythnos Busnes Gwynedd a Gwobrau Busnes Gwynedd a bod yn fwriad i fireinio ffocws yr Wythnos Fusnes ond i barhau i'w cynnal yn flynyddol ond symud i gynnal y Gwobrau Busnes pob yn ail flwyddyn.

v) Nodwyd fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu ail strwythuro eu darpariaeth o nawdd i fusnesau gan sefydlu un cynllun cenedlaethol.

Trafodaeth:

vi) Diweddarwyd Aelodau'r Grŵp Llywio ar gynllun uwchraddio Rheilffordd Dyffryn Conwy gan y Tad Deiniol. Nodwyd fod y cynllun yn ddibynnol ar argaeledd y llwybr ond fod negeseuon cymysg ynglŷn â dyfodol y cynllun yn

cael eu derbyn gan wahanol rhanddeiliad gyda sylwadau yn cynnwys ffeithiau anghywir (yng nghyswllt capasiti pwysau a lled twneli ar y lein) yn cael eu derbyn gan Adran Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth y Cynulliad a bod hyn wedi tanseilio hyder yn y prosiect ac effeithio ar benderfyniadau ynglŷn â nawdd megis y 'Freight Facilities Grant'. Adroddwyd, yn ogystal, fod safle seidins ym Mlaenau Ffestiniog wedi eu gwaredu ac fe all y gwerthiant rwystro gweithredu'r cynllun.

vii) Diweddarwyd Aelodau'r Grŵp Llywio hefyd ar gynllun i ail ddatblygu'r rheilffordd rhwng Blaenau Ffestiniog a Trawsfynydd gan y Tad Deiniol. Adroddwyd fod ymchwil wedi cynnal i gost adnewyddu'r lein a'i ddychwelyd i ddefnydd. Nodwyd fod adroddiad yr ymgynghorwyr, Interfleet Technology, yn awgrymu cost o £300,000 i weithredu cynllun i ddatblygu'r rheilffordd yn atyniad ymwelwyr. Nododd y Tad Deiniol ymateb i'r cynllun wedi eu derbyn oedd yn nodi fod Llywodraeth Cynulliad Cymru a Cyngor Gwynedd ddim yn ystyried y cynllun yn flaenoriaeth gan fod datblygiad i'w canoli yn ardal y Fenai.

viii) Nodwyd, yn ogystal, fod cyn orsaf rheilffordd Y Felinheli ynghyd â'r 'trackbed' cysylltiedig' ar werth yn groes i bolisi datganedig. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cynnal coridorau cyn rheilffyrdd fel bo modd eu hail ddatblygu yn y dyfodol.

ix) Ymatebodd Sioned Williams gan nodi fod ardal Ffestiniog yn dal i fod yn flaenoriaeth gan Wasanaeth Economi ac Adfywio Cyngor Gwynedd a bod y cynllun i uwchraddio Rheilffordd Dyffryn Conwy gan fanteisio ar y cyfleoedd i ail ddefnyddio llechi gwastraff yn parhau i gael ei ystyried yn ddatblygiad pwysig. Nodwyd fod y cynllun a'r anawsterau sydd wedi bod yn ei ddatblygiad wedi eu hadrodd i'r Dirprwy Prif Weinidog yng nghyfarfod diweddar.

x) Nodwyd, yn ogystal, fod Cyngor Gwynedd rhannu pryderon yr Aelodau ac yn ymdrechu'n gyson i dynnu sylw i anghenion pob rhan o'r sir ac i wrthdroi ffocws Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ganolbwyntio datblygiad ardal y Fenai - ymrwymwyd i ymchwilio i ddeilliant y neges oedd yn datgan barn i'r gwrthwyneb.

xi) Trafodwyd datblygiad pellach y Cynllun Gofodol yng Nghanol a Gogledd Orllewin Cymru. Nodwyd, yn arbennig, pryderon ynglŷn â datblygiad Astudiaeth Aneddiadau Allweddol Canol Cymru ac addasu drafft Strategaeth Datblygu Gofodol Gogledd Orllewin Cymru yng nghyswllt y dull datblygu gofodol dan sylw.

xii) Trafodwyd pwysigrwydd cynllunio trafnidiaeth strategol y sir i hwyluso datblygiad ledled Gwynedd.

Casgliadau:

xiii) **Derbyn** yr adroddiad

xiv) **Pwyso** ar gynrychiolwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Grŵp Llywio

Tasgau:

a) **Gwadd Llywodraeth Cynulliad Cymru i friffio'r Aelodau ar eu darpariaeth o nawdd i fusnesau**

Ysgrifenyddiaeth i'w raglennu

b) **Gwadd cynrychiolydd o Interfleet Technology Ltd i hysbysu Aelodau o gasgliadau eu hastudiaeth i ddatblygiad rheilffordd Blaenau Ffestiniog - Trawsfynydd**

Ysgrifenyddiaeth cgaph

c) **Gwadd Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddiweddaru Aelodau ar ddatblygiad y Cynllun Gofodol**

Ysgrifenyddiaeth cgaph

ch) **Cylchredeg cofnod gweithdy ymgynghori Strategaeth Datblygu Gofodol Gogledd Orllewin Cymru**

Ysgrifenyddiaeth cgaph

d) **Cyfleu pryderon Aelodau'r Grŵp Llywio ynglŷn â datblygiad Cynllun Gofodol Cymru**

Ysgrifenyddiaeth cgaph

dd) **Gwadd Cyfarwyddwr Strategol Amgylchedd, Cyngor Gwynedd, i ddiweddaru'r Grŵp Llywio ar ddatblygiad isadeiledd trafnidiaeth Gwynedd**

Ysgrifenyddiaeth i'w raglennu

MATERION STRATEGOL

05. Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Gwynedd

Trafodaeth:

i) Croesawyd Janet Roberts i gyfarfod y Grŵp Llywio.

ii) Nodwyd mai dyma'r ail Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles i Wynedd a bod cyfnod ymgynghori yn cael ei gynnal hyd at ddechrau Ionawr 2008. Gwahoddwyd y Bartneriaeth, yr Aelodau a'u sefydliadau i gynnig eu sylwadau ar y ddogfen ddrafft.

iii) Adroddwyd fod y Strategaeth yn seiliedig ar 9 egwyddor arweiniol gan geisio rhoi sylw i ffactorau, megis yr economi, sy'n dylanwadu ar iechyd trigolion Gwynedd a cheisio datblygu'r agenda i atal afiechyd drwy annog byw yn iach.

iv) Trafodwyd y Strategaeth drafft gan yr Aelodau gan nodi'r sylwadau isod:

- croeso i'r gydnabyddiaeth o'r cyswllt rhwng iechyd a'r economi
- pwysigrwydd annog ffitrwydd ymysg pobl ifanc
- arwyddocâd a maint y broblem cyffuriau yng nghymunedau yng Ngwynedd a'r angen i ymchwilio ymhellach i'r sgôp y broblem a'r ymateb angenrheidiol
- fod y newid yn nhrefniadau budd daliadau yn annog mwy o unigolion i ddychwelyd i waith
- pwysigrwydd cynnal iechyd y boblogaeth mewn oed

- y cyfleoedd i ddefnyddio'r gyfundrefn gynllunio (planing gain) er mwyn annog buddsoddiad yn ymdrechion i dargedu anactifedd economaidd
- fod cyfleoedd i gydweithio â Phrifysgolion i ddatblygu'r cyfundrefnau i gasglu a data i fonitro iechyd y boblogaeth a thueddiadau i'r dyfodol

v) Nodwyd fod cyswllt rhwng blaenoriaethau datblygu economaidd a'r agenda iechyd yng nghyd-destun y sector awyr agored, maes adfywio cymunedol a thargedu'r economaidd anweithredol

Casgliadau:

vi) **Cytunwyd** i ystyried cynnal cyfarfod ar y cyd gyda'r Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles yn y dyfodol

Tasgau:

DIM

06. Rhaglenni Ewropeaidd Cymru

Trafodaeth:

i) Cyflwynwyd diweddariad i'r Aelodau ar ddatblygiad a gweithredu rhaglenni Ewropeaidd Cymru.

ii) Nodwyd fod pryderon yn parhau yng nghyswllt sefydlu a gweithredu'r trefniadau ymarferol y Rhaglen Cydgyfeirio yng nghyswllt y drefn ymgeisio, statws Fframweithiau Strategol, y defnydd o ffurflenni gwybodaeth prosiect (PIFs) a osodir ar safle gwe WEFO a'r angen i gydymffurfio â phroffil gwariant y Rhaglen.

Casgliadau:

DIM

Tasgau:

f) **Derbyn cyflwyniad cyflawn ar drefniadau'r Rhaglen Cydgyfeirio gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru**

Ysgrifenyddiaeth i'w raglennu

07. Cynllun Datblygu Gwledig Cymru

Trafodaeth:

i) Cyflwynwyd yr eitem gan y Cadeirydd drwy bwysleisio arwyddocâd a phwysigrwydd y Cynllun Datblygu Gwledig i Wynedd a dyfodol y Bartneriaeth.

ii) Cyflwynwyd adroddiad i'r Aelodau ar geisiadau prosiect a chynllun busnes arfaethedig y Bartneriaeth i'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer y cyfnod 2007 - 2010 gan Gadeirydd Is-grŵp Datblygu Gwledig y Bartneriaeth, Emyr Williams, a darparwyd cyflwyniad ar eu cynnwys.

iii) Nodwyd fod bwriad cyffredin ar draws y cynlluniau i sicrhau mynediad drwy gydol y cyfnod tair blynedd i sefydliadau ac unigolion yng Ngwynedd. Mynegwyd dymuniad gan yr Aelodau i'r Bartneriaeth fod yn uchelgeisiol yn ei geisiadau i'r Cynllun Datblygu Gwledig ond derbyniwyd y cyfyngiadau

argaeledd cydariannu a'r angen am gydbwysedd gydag ymarferoldeb cyflawni.

Casgliadau:

iv) Fod Aelodau'r Grŵp Llywio yn **cymeradwyo'r** cynlluniau unigol i'w cyflwyno i Llywodraeth Cynulliad Cymru erbyn 30 Tachwedd 2007.

v) Fod Aelodau'r Grŵp Llywio yn **dirprwyo'r** hawl i swyddogion yr Ysgrifenyddiaeth barhau i ddatblygu'r ceisiadau hyd eu cyflwyno.

vi) Fod Aelodau'r Grŵp Llywio yn **cymeradwyo** bwriadau'r cynllun busnes gan ddirprwyo'r hawl i swyddogion yr Ysgrifenyddiaeth barhau i ddatblygu'r cynllun hyd ei gyflwyno.

Tasgau:

ff) **Cyflwyno ceisiadau Gwynedd i'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer y cyfnod 2007 - 2010**

Ysgrifenyddiaeth 30 Tachwedd 2007

C R Y N O D E B T A S G A U

a) **Gwadd Llywodraeth Cynulliad Cymru i friffio'r Aelodau ar eu darpariaeth o nawdd i fusnesau**

Ysgrifenyddiaeth i'w raglennu

b) **Gwadd cynrychiolydd o Interfleet Technology Ltd i hysbysu Aelodau o gasgliadau eu hastudiaeth i ddatblygiad rheilffordd Blaenau Ffestiniog - Trawsfynydd**

Ysgrifenyddiaeth cgaph

c) **Gwadd Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddiweddaru Aelodau ar ddatblygiad y Cynllun Gofodol**

Ysgrifenyddiaeth cgaph

ch) **Cylchredeg cofnod gweithdy ymgynghori Strategaeth Datblygu Gofodol Gogledd Orllewin Cymru**

Ysgrifenyddiaeth cgaph

d) **Cyfleu pryderon Aelodau'r Grŵp Llywio ynglŷn â datblygiad Cynllun Gofodol Cymru**

Ysgrifenyddiaeth cgaph

dd) **Gwadd Cyfarwyddwr Strategol Amgylchedd, Cyngor Gwynedd, i ddiweddaru'r Grŵp Llywio ar ddatblygiad isadeiledd trafnidiaeth Gwynedd**

Ysgrifenyddiaeth i'w raglennu

f) **Derbyn cyflwyniad cyflawn ar drefniadau'r Rhaglen Cydgyfeirio gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru**

Ysgrifenyddiaeth i'w raglennu

ff) **Cyflwyno ceisiadau Gwynedd i'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer y cyfnod 2007 - 2010**

Ysgrifenyddiaeth 30 Tachwedd 2007

Is-Grwpiau'r Bartneriaeth

Is-Grwpiau'r Bartneriaeth

CYFARFOD:	Grŵp Llywio Partneriaeth Economaidd Gwynedd
DYDDIAD:	25ain o Ionawr 2008
PWRPAS:	Diweddaru Aelodau ar weithgaredd Is-Grwpiau'r Bartneriaeth.
ARGYMHELLIAD:	Nodi cynnwys yr adroddiad
AWDUR:	Sioned E. Williams Pennaeth Gwasanaeth Economi ac Adfywio

1. Cyflwyniad

1.1 Mae pum is-grŵp wedi eu pennu gan aelodau'r Grŵp Llywio i'w cynorthwyo yn eu gwaith. Pwrpas yr adroddiad hwn yw diweddaru'r Aelodau ar weithgaredd yr is-grwpiau yn y cyfnod ers cyfarfod olaf y Grŵp Llywio.

2. Is-grŵp gweithredu Llwyddo'n Lleol

2.1 Mae'r cynllun gwaith Llwyddo'n Lleol ar gyfer 2007/2008, a ariennir gan Raglen Gweithredu Dros Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn parhau. Mae'r Is-grŵp Gweithredol sy'n rheoli gweithgaredd y Bartneriaeth o dan y them wedi cwrdd ar y 5ed o Ragfyr, amgeir yr adroddiad yn Atodiad 1. Fe nodwch fod yr adroddiad yn cynnwys argymhelliad i newid strwythur Is-grŵp Llwyddo'n Lleol yn ogystal â newyddion am gyflwyno cais am nawdd Cronfa Gweithredu Dros Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru - 2008/09.

3. Is-grŵp Datblygu Gwledig

3.1 Mae'r Is-grŵp Datblygu Gwledig yn parhau i arwain ar ddatblygiad cynigion y Bartneriaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig. Gellir cadarnhau fod y Cynllun Busnes a Phrosiectau Arfaethedig Gwynedd wedi eu cyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad ar y 30ain o Dachwedd, 2007. Mae swyddogion y Cynulliad yn asesu addasrwydd y prosiectau unigol cyn ystyried y Cynllun Busnes. Nid oes unrhyw adborth wedi dod i law eto.

4. Is-grŵp Cefnogi Busnes

4.1 Cyfarfu'r Is-grŵp Datblygu Busnes ar y 26ain o Dachwedd, 2007, amgeir adroddiad i sylw'r Grŵp Llywio yn Atodiad 2.

5. Is-grŵp Sgiliau

5.1 Nid yw'r Is-grŵp Sgiliau wedi cwrdd yn y cyfnod ers cyfarfod olaf y Grŵp Llywio.

6. Gweithgareddau Adfywio Cymunedol

6.1 Ceir adroddiad yn amlinellu'r Gweithgareddau Adfywio Cymunedol yn Atodiad 3

7. Argymhelliad

7.1 Aelodau'r Grŵp Llywio i dderbyn cynnwys yr adroddiad.

Llwyddo'n Lleol

BWLETIN (Ionawr 2008)

Enw'r Bartneriaeth:	**Partneriaeth Economaidd Gwynedd (Is-Grwp Llwyddo'n Lleol)**
Dyddiad y cyfarfod:	**5ed Rhagfyr, 2007**

Prif bwyntiau gweithredu o'r cyfarfod:

- Cynhaliwyd gweithdy blynyddol y grŵp, lle cynigodd y grŵp newid ei strwythur i wneud gwell defnydd o arbenigedd y gwahanol aelodau a galluogi i'r tîm gweithredu ganolbwyntio ar faterion dydd i ddydd

Materion i sylw'r Bwrdd Llywio:

1 **Newid I Strwythur Is-Grŵp Llwyddo'n Lleol**

1.1 Ar hyn o bryd, mae materion dydd-i-ddydd rhaglen Llwyddo'n Lleol yn cael eu llywio gan is-grŵp gyda chynrychiolaeth y partneriaid gweithredol (Cyngor Gwynedd, Menter a Busnes a Phrifysgol Bangor), ac wyth aelod ychwanegol. Mae'r grwp yn cyfarfod pob dau fis. Y bwriad oedd rhoi cyfle i'r aelodau ehangach derbyn diweddariadau ynglŷn â'r gwaith, ac i drafod problemau a sbarduno syniadau. Yn ymarferol rydym wedi gweld fod y cyfarfodydd braidd yn unochrog, gyda phwyslais cryf ar y diweddariadau yn lle'r drafodaeth, gan nid oes yna broblem neu fater i drafod pob tro.

1.2 Oherwydd hyn roedd nifer o aelodau yn ymddiheuro o gyfarfodydd, a phenderfynwyd cynnal gweithdy i drafod rôl y grŵp i'r dyfodol yn ystod mis Rhagfyr. O ganlyniad i'r gweithdy cynigodd y grŵp:

- Bod cyfarfodydd tîm rhwng y partneriaid gweithredol yn unig yn parhau i gael eu cynnal yn gyson
- Bod y tîm gweithredol yn galw ar arbenigedd aelodau ehangach yr is-grŵp yn uniongyrchol fel bo'r angen
- Bod aelodau'r is-grŵp llawn yn cael eu diweddaru ynglŷn â chynnydd mewn gweithgareddau trwy e-bost
- Bod cyfarfodydd yr is-grŵp llawn yn cael eu cynnal fel mae materion penodol yn codi.

Roedd yr aelodau yn awyddus, fodd bynnag, eu bod yn parhau I gymryd rol blaengar yn y rhaglen, ac yn wir yn gweld bod y trefniant newydd yn hwyluso'u gallu I gyfrannu, trwy ganolbwyntio ar meysydd o fewn eu harbenigedd.

1.3 Gofynnir, felly am sêl bendith Partneriaeth Economaidd Gwynedd I'r newid yma

2 Cyflwyno Cais am Nawdd Cronfa Gweithredu Dros Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru – 2008/09

2.1 Mae cais am nawdd i gronfa Gweithredu dros Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn ffurf Cynllun Gweithredu wrthi'n cael ei ysgrifennu ar gyfer rhaglen Llwyddo'n Lleol.

2.2 Bydd y cais yn cynnwys yr un pecyn o weithgareddau ag eleni, gan edrych i orffen cyfnod treial y rhaglen yn 2008/09 a chreu sail gadarn i ddatblygu'r gwaith o dan y Cynllun Datblygu Gwledig a'r Rhaglen Cydgyfeirio.

2.3 Chwefror 1af, 2008 ydy'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau. Oherwydd hyn, gofynnir am ganiatâd Partneriaeth Economaidd Gwynedd I gyflwyno cais ar eu rhan, gan adrodd ar ei union gynnwys yn y cyfarfod nesaf.

3. Allbynnau 2007/08 yn Erbyn Targedau

3.1 Bydd allbynnau'r rhaglen ar gyfer chwarter 3 2007/08 ar gael erbyn y cyfarfod nesaf.

Unrhyw faterion penodol i bartneriaethau eraill (nodwch pa un):

dim

Enw cydlynydd: Nia Swann

Rhif Ffôn: 01286 679774

Ebost: Nia Swann@gwynedd.gov.uk

Person sy'n gyfrifol am y cofnodion:

Nia Swann

Tîm Rheoli Cefnogi Busnes Gwynedd

BWLETIN (Ionawr 2008)

Enw'r Bartneriaeth:	**Partneriaeth Economaidd Gwynedd**
Dyddiad y cyfarfod:	**26 Tachwedd, 2007**

Prif bwyntiau gweithredu o'r cyfarfod:

1. Cytuno ar y rhaglen waith a'r digwyddiadau penodol mewn perthynas â'r Wythnos Busnes Gwynedd.
2. Yr angen i gynnal trafodaethau gyda'r Cynulliad o ran dadansoddiad pellach o'r ffigyrau darpariaeth cefnogi busnes, ynghyd â sut y dylid adrodd arnynt yn y dyfodol.
3. Ystyriaeth bellach i'r pwyntiau a nodwyd mewn perthynas â'r cyflwyniadau a'r trafodaethau ynglŷn â'r Sector Twristiaeth yng Ngwynedd.

Materion i sylw'r Bwrdd Llywio:

1. Wythnos Busnes Gwynedd 2008 a 2009 - fel y penderfynwyd yn y cyfarfod diwethaf o'r Tîm Rheoli Cefnogi Busnes Gwynedd, anfonwyd briff allan i gwmnïau perthnasol ar gyfer trefnu a rheoli'r gwahanol ddigwyddiadau yn ystod Mai 2008 yn ogystal â'r digwyddiadau, cystadleuaeth Wobrwyo a'r cinio ar gyfer busnesau Gwynedd yn ystod Mai 2009.

1.1 Yn dilyn asesiad o'r cynigion, fe benodwyd cwmnïau Atom pr a Cambrensis i ymgymryd â'r gwaith o drefnu'r digwyddiadau busnes. Mi fydd y Grŵp Llywio Wythnos Busnes yn cyfarfod gyda Atom/Cambrensis ar y 31 Ionawr 2008 er mwyn trafod y rhaglen waith a'r digwyddiadau penodol.

2. Monitro'r Ddarpariaeth Cefnogi Busnes Bresennol

2.1 Llywodraeth Cynulliad Cymru - Gwasanaethau Cefnogi Busnes - mewn ymateb i gam gweithredu o gyfarfod diwethaf y Tîm hwn, cylchredwyd ddogfen yn amlinellu'r rhesymau posib pam fod ffigyrau Gwynedd yn ymddangos braidd yn isel. Eglurwyd y byddai amrediad o weithgarwch sy'n parhau i fod ar y gweill yn digwydd ar adeg benodol, ond nad oedd adroddiad wedi ei dderbyn arno hyd yma. Yn anochel, byddai hyn yn arwain at oedi. Er dibenion rheoli, mae staff y Cynulliad yn proffilio allbynnau mynegol ac yn monitro allbynnau yn erbyn y rhain. Adroddir ar unrhyw amrywiant y tu hwnt i amrediad o 10% (plws/minws) a byddant yn cael eu hystyried gan uwch reolwyr.

2.1.1 Nodwyd y prif ddangosyddion allweddol oedd yn ymwneud â Gwynedd.

2.1.2 Penderfynwyd y dylid cynnal trafodaethau pellach o ran dadansoddiad pellach o'r ffigyrau hyn, ynghyd â sut y dylid adrodd arnynt yn y dyfodol.

2.1.3 Yn ogystal, derbyniwyd amlinelliad o'r prif bwyntiau o 'Atebion Busnes Hyblyg' y Cynulliad sy'n amlinellu eu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol o ran cefnogi busnes.

2.2 Cyngor Gwynedd - Pecyn Datblygu Busnes - adroddwyd bod y Cyngor wedi derbyn 849 o geisiadau llawn gan 664 o fusnesau. Mae grantiau sydd yn dod i gyfanswm o £1.3M wedi rhyddhau i fusnesau wedi iddynt gwblhau eu prosiectau. Mae'r wybodaeth monitro ddiweddaraf yn dangos bod yr allbynnau/targedau perthnasol wedi eu cyflawni.

2.3 Cyngor Gwynedd - Ymholiadau Tiroedd ac Asedau Busnes - adroddwyd bod 220 o ymholiadau wedi derbyn mewn perthynas â eiddo diwydiannol a thiroedd ers 1 Ebrill 2007. Mae cyfanswm o 187 o ymholiadau yn parhau'n agored yn sgil diffyg argaeledd eiddo neu dir. Nodwyd bod pob un o eiddo diwydiannol y Cyngor yn llawn ac mae rhestrau aros ar gyfer rhai lleoliadau penodol.

2.3.1 Adroddwyd nad oedd tir y tu allan i ardal Bangor wedi ei gymeradwyo ar gyfer datblygiad diwydiannol dan y Cynllun Datblygu Unedol (CDU).

3. Materion Strategol

3.1 Rhaglenni Gronfeydd Ewropeaidd - cafwyd diweddariad mewn perthynas â'r prif raglenni sef: -

- Rhaglen Cydweithio Tiriogaethol Cymru – Iwerddon 2007-2013
- Rhaglen Cydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 2007-2013
- Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013

3.2 Sector Twristiaeth – Cyflwyniadau a Trafodaeth – cafwyd cyflwyniadau gan Sian Jones o Gyngor Gwynedd, Dewi Davies o Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru ac Esther Roberts o Dwristiaeth Gogledd Cymru.

3.2.1 Rhoddwyd amlinelliad o rôl yr uchod o ran twristiaeth yng Ngwynedd, ynghyd â throsolwg o'r gwaith a wnaed er mwyn datblygu a hyrwyddo twristiaeth yn yr ardal.

3.2.2 Yn dilyn hyn, cafwyd trafodaeth a dynnodd sylw at y pwyntiau a ganlyn: -

- Yr angen i safoni brand 'Eryri Mynyddoedd a Môr' yn gyfan gwbl, ynghyd â'i ddyblygu i ddiwyg a gytunir arno.
- Codwyd y mater o ymdrechion tebyg gan wahanol bartneriaid, ynghyd â'r angen am ddogfen yn ymwneud â rôl a chyfrifoldebau er mwyn nodi'r holl weithgareddau a wnaed ar sail isranbarthol neu sirol.
- Effaith technoleg ar y broses gwneud penderfyniadau ar gyfer darpar ymwelwyr i'r ardal, yn enwedig felly o ran y gwasanaeth Canolfannau Croeso.

Rhaglen waith y Tîm Rheoli Cefnogi Busnes

Mi fydd cyfarfod nesaf o'r Tîm yn cyfarfod ar y cyd gyda'r Is-Grŵp Sgiliau ar y 28 Chwefror 2008.

Materion eraill a fydd yn cael eu trafod yn y dyfodol yw: -

- Tir ac eiddo diwydiannol
- Datblygu sectorau economaidd

Enw cydlynydd:	Colin Morris
Rhif Ffôn:	01286 679677
Ebost:	colinm@gwynedd.gov.uk

Person sy'n gyfrifol am y cofnodion: Colin Morris

Gweithgareddau Adfywio Cymunedol.

BWLETIN (Ionawr 2008)

Enw'r Bartneriaeth: **Partneriaeth Economaidd Gwynedd**

Dyddiad y cyfarfod: **25 Ionawr, 2008**

Crynodebau Gweithgareddau :-

Fframwaith Adfywio Gwynedd.
Strategaeth Adfywio Gwynedd.
Cymeradwyodd a mabwysiadodd Bwrdd y Cyngor y Strategaeth uchod ar Ragfyr 18, 2007. Mae'r ddogfen ar hyn o bryd yn cael ei hargraffu cyn ei dosbarthu.

Cynlluniau Adfywio Ardal.
Yn sgil cynnal Cynllun Peilot yn ardal Pwllheli a Llŷn bydd y Cynllun Adfywio i'r Ardal honno ar gael yn fuan. Bwriedir symud i lunio Cynlluniau Adfywio Ardal ar gyfer ardaloedd Meirionnydd nesaf, gan gychwyn ar gwaith hwnnw yn ystod y mis nesaf.

Person Cyswllt – Catrin Thomas, Rheolwr Adfywio Cymunedol, Cyngor Gwynedd

Cymunedau'n Gyntaf.
Rhaglen Cynulliad Cenedlaethol Cymru i weithio mewn ardaloedd difreintiedig i fynd i'r afael ag achosion amddifadedd.

Prif Weithgareddau Presennol:-

- Abermaw – Sefydlu canolfan adnoddau a meithrin menter.
- Bowydd a Rhiw – Datblygu gweithgareddau a sgiliau i'r maes awyr agored.
- De Pwllheli – Datblygu cynllun integreiddio gwasanaethau i deuluoedd a phlant.
- Pen Llyn - Gweithredu cynllun gwasanaethau cefnogi pobl hŷn.
- Marchog – Rheoli'r ganolfan byw yn iach a gwyro gwasanaethau iechyd cymunedol.
- Peblig – Ailddatblygu canolfan gymunedol Noddfa.
- Talysarn a Nantlle – Cwblhau proses 'Cynllunio Go Iawn'.

Datblygiadau Diweddaraf:-
Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi datgan y bydd y rhaglen yn newid pwyslais o fis Ebrill 2009 ymlaen i ganolbwyntio ar greu allbynnau adfywio pendant. Bydd disgwyl i bob Partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf leol fod gyda cynlluniau gweithredu mewn lle ar gyfer dyfodiad 'Cymunedau Nesaf' i sicrhau cyllideb hyd 2012.

Pwynt Cyswllt – Ifan Ll. Jones, Cyngor Gwynedd,
Carys Williams, Mantell Gwynedd,

GENESIS
Rhaglen Cynulliad Cenedlaethol Cymru i weithio gydag unigolion economaidd anweithgar i ddileu rhwystrau i'w cynorthwyo yn ôl i waith / hyfforddiant.

Sefyllfa Bresennol 2007-08:-

- Nifer y Buddiolwyr sydd ar y rhaglen – 337
- Nifer o fuddiolwyr sydd wedi cwblhau'r rhaglen – 62 (gyda 22 wedi dychwelyd i waith / 33 i hyfforddiant bellach).
- Nifer y buddiolwyr sy'n siaradwyr Cymraeg – 230.
- Prif rwystrau i waith / hyfforddiant – trafnidiaeth / sgiliau a chymwysterau / hyder / cyfrifoldebau gofal.

Datblygiadau Diweddaraf:-
Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn gweithio ar gais 6 mlynedd Cydgyfeiriant ar gyfer parhau gyda'r rhaglen yn genedlaethol.

Pwynt Cyswllt - Angharad ab Iorwerth, Cyngor Gwynedd.

Grantiau CIST Gwynedd.
Casgliad o gronfeydd amrywiol ar gyfer cefnogi gweithgarwch wirfoddol a chymunedol.

Sefyllfa Bresennol 2007-08:-

- Cronfa Wledig II - 8 prosiect wedi derbyn cynnig grant i gyfanswm o £560k, gan sicrhau buddsoddiad o £1.460,000 yn y sir.

- Cronfa Allweddol – 10 prosiect wedi derbyn cynnig grant i gyfanswm o £128k, gan sicrhau buddsoddiad o £279k

- Cronfa Datblygu Gwirfoddol Cyfalaf – 10 prosiect wedi derbyn cynnig i gyfanswm o £72k, gan sicrhau buddsoddiad o £189k yn y sir.

- Cronfa Datblygu Gwirfoddol Refeniw – 10 prosiect wedi cael cynnig grant i gyfanswm o £77k, gan sicrhau buddsoddiad o £112k yn y sir.

Sefyllfa Bresennol 2006-08:

- Cronfa Galluogi Gwynedd – 85 prosiect wedi cael cynnig grant i gyfanswm o £144k

- Cronfa Caergylchu – 5 prosiect wedi cael cynnig grant i gyfanswm o £149k.

Datblygiadau Diweddaraf:-
Mae aelodau newydd wedi eu hethol i eistedd ar Banel Grantiau Cist Gwynedd a byddent yn cwrdd yn ystod mis Chwefror.
Mae Mantell Gwynedd wedi cyflwyno cais i ymestyn Cronfa Galluogi Gwynedd, ac maent yn disgwyl dyfarniad y Cynulliad yn ystod y mis nesaf.

Pwynt Cyswllt - Delyth Vaughan, Mantell Gwynedd.
Heather Williams, Cyngor Gwynedd.

communities *first* cymunedau *yn gyntaf*

Rhaglenni Ewropeaidd Cymru: Adroddiad Gweithgaredd

Diweddariad Rhaglenni Ewropeaidd

CYFARFOD:	Grŵp Llywio Partneriaeth Economaidd Gwynedd
DYDDIAD:	25ain o Ionawr, 2008
PWRPAS:	Diweddaru Aelodau'r Bartneriaeth ar weithredu Rhaglenni Ewropeaidd 2000 - 2006 ac ar ddatblygu Rhaglenni Ewropeaidd 2007 - 2013
ARGYMHELLIAD:	Nodi cynnwys yr adroddiad
AWDUR:	Sioned E. Williams Pennaeth Gwasanaeth Economi ac Adfywio

1. Cyflwyniad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw diweddaru Aelodau'r Bartneriaeth yn gryno ar weithredu Rhaglenni Ewropeaidd 2000 - 2006 ac ar ddatblygu Rhaglenni Ewropeaidd 2007 - 2013, yn benodol:

- Rhaglen Amcan 1 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 2000 - 2006
- Rhaglen Cydweithio Tiriogaethol Cymru - Iwerddon 2007 - 2013
- Rhaglen Cydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 2007 - 2013
- Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007 – 2013

2. Rhaglen Amcan 1

2.1 Ôl-ofal:
Mae rôl a chyfrifoldebau'r Ysgrifenyddiaeth y Bartneriaeth yn darparu cyngor a chymorth i reolwyr prosiectau Amcan 1 yng Ngwynedd yn parhau. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn darparu cymorth i reolwyr cynlluniau i baratoi ar gyfer ymweliadau 'Erthygl 4' gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Cynhaliwyd 55 ymweliad 'Erthygl 4' i brosiectau lleol yng Ngwynedd hyd yn hyn.

2.2 Fel rhan o'r gwasanaeth ôl-ofal parhaus, cysylltodd yr Ysgrifenyddiaeth gyda 47 rheolwr prosiect yn ddiweddar yn cynnig cyngor a chefnogaeth gyda unrhyw faterion a allai achosi pryder. Mae 16 cyfarfod wedi eu trefnu dros yr wythnosau nesaf.

2.2 Cyhoeddusrwydd:
Mae'r Bartneriaeth yn parhau i weithio'n ymarferol i sicrhau cyhoeddusrwydd cadarnhaol yn lleol ar gyfer y rhaglen. Roedd gan y Bartneriaeth stondin yn lansiad swyddogol Rhaglen Cymru Iwerddon 2007 – 2013 yn Llandudno ar 7fed o Ragfyr 2007.

3. Rhaglen Cydweithio Tiriogaethol Cymru / Iwerddon

3.1 Lansiwyd Rhaglen Cymru Iwerddon 2007 - 2013 yn swyddogol yn Llandudno ar 7fed o Ragfyr 2007. Cafwyd areithiau gan Ieuan Wyn Jones A.C., Dirprwy Brif Weinidog Cymru, Colm McGrady, Conswl Cyffredinol Iwerddon yng

Nghymru ac Ann-Kerstin Myleus, Dirprwy Bennaeth Uned Cydweithio Tiriogaethol y Comisiwn Ewropeaidd.

3.2 Caeodd y galwad cyntaf am geisiadau ar y 18fed o Ionawr. Rhagwelir bydd galwad am geisiadau ddwywaith y flwyddyn, gyda'r nesaf wedi ei raglennu ar gyfer mis Mai. Deallir bod hyd at 30 o geisiadau wedi eu cyflwyno yn ystod yr alwad gyntaf.

3.3 Tynnir sylw'r aelodau at y ffaith nad oes Swyddog Datblygu wedi ei benodi gan WEFO i'r Gogledd Orllewin hyd yma, rhagwelir bydd swyddog yn ei le/lle erbyn mis Mawrth. Yn y cyfamser, mae cymorth ar gyfer ymgeiswyr ar gael gan yr Uned Cydweithredu Tiriogaethol ym Merthyr Tudful. Mae'r Ysgrifenyddiaeth wedi bod yn darparu cymorth cychwynol i ymgeiswyr, ond mae'r diffyg o Swyddog Datblygu wedi llesteirio'r broses o ddatblygu ceisiadau yng Ngwynedd.

3.4 Mae gwybodaeth bellach ar y rhaglen ar gael trwy wefan www.irelandwales.ie sy'n darparu gwybodaeth gyswllt ar gyfer ymgeiswyr sy'n datblygu syniadau ynghyd a'r dogfennau perthnasol. Atgoffir yr aelodau bod cynllun WIN 2 (Rhwydwaith Cymru Iwerddon) nawr ar gael i helpu ffurfio partneriaethau a all arwain at gyflwyno ceisiadau ar gyfer prosiectau. Mae'r cynllun yn darparu cymorth ariannol i fudiadau cymwys er mwyn talu am gostau teithio a chynhaliaeth. Mae ffurflen gais ac arweiniad ar gael ar y wefan yn ogystal.

4. Rhaglen Cydgyfeirio

4.1 Timau Ewropeaidd Gofodol:
Mae trafodaethau'n parhau i sicrhau cyllid Cymorth Technegol gan y Rhaglen i gefnogi gwaith y Timau Ewropeaidd Gofodol (SETS) a fydd yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i ymgeiswyr prosiect yn ystod oes y rhaglen. Mae'r swyddogion o ledled y Gogledd Orllewin sy'n debygol o fod ynghlwm a'r SETs yn cyfarfod ar yr 22ain o Ionawr.

4.2 Fframweithiau Strategol:
Mae holl Fframweithiau Strategol ERDF gan eithrio Blaenoriaeth 5 Them 1 (Gweler 4.8), bellach gyda statws wedi 'cytuno' arnynt ar wefan WEFO. Mae holl Fframweithiau Strategol ESF yn parhau gyda'r statws 'dan adolygiad'. Deallir gan y Cyd-drefnwyr Fframweithiau Strategol bod WEFO yn parhau i weithio ar newidiadau bychain, cyn y gellir eu derbyn fel rhai wedi 'cytuno', nid oes amserlen bendant.

4.3 Ffurflenni Gwybodaeth Prosiectau:
Mae 576 o Ffurflenni Gwybodaeth Prosiectau gan amrywiaeth o asiantaethau a mudiadau wedi eu cofnodi ar wefan WEFO hyd yma. Parhau mae'r drafodaeth ynghylch â'r cam nesaf yn y broses, gyda'r tebygolrwydd y bydd swyddogion WEFO yn trafod ymhellach gyda'r Timau Ewropeaidd Gofodol maes o law.

4.4 Mynegwyd pryderon gan y Bartneriaeth yn y gorffennol ynghylch â'r diffyg gwybodaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) am brosiectau sy'n cael eu datblygu. Er bod y sefyllfa'n gwella gyda rhai Ffurflenni Gwybodaeth Prosiectau gan LICC yn ymddangos ar y wefan a gwybodaeth yn dod i law

drwy ffynhonellau eraill (wele isod), mae'n deg nodi ei fod yn parhau i fod yn annodd cael darlun cyflaw o'u bwriadau.

4.5 Cynlluniau Cenedlaethol:
Cynhaliwyd gweithdai ddechrau Ionawr gan LICC (Croeso Cymru), Cyngor Cefngwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a CADW ar y cynlluniau cenedlaethol sy'n cael eu cyflwyno trwy Flaenoriaeth 4 Them 3 (Environment for Growth). Mae pump cynllun yn cael eu datblygu fel a ganlyn;

- Twristiaeth Ddiwylliannol (CADW)
- Twristiaeth Bywyd Gwyllt / Cymunedau a Natur (CCW)
- Mynediad i'r Arfordir (CCW a LICC)
- Twristiaeth Arfordirol (Croeso Cymru)
- Twristiaeth Gynaliadwy (Croeso Cymru)

4.6 Gweler atodiad 1 am adroddiad o gynnwys y gweithdai ynghyd a manylion y cynlluniau arfaethedig.

4.7 Mae'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, LICC (DCELLS) wedi trefnu Gweithdy Gweithredu ESF yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod ar y 29ain a'r 30ain o Ionawr. Pwrpas y digwyddiad fydd cynnig y wybodaeth ddiweddaraf ar weithredu'r rhaglenni ESF 2007-2013 o fewn DCELLS, gan gynnwys diweddariad am y fframweithiau, arian cyfatebol a datblygu cynlluniau. Bydd cynrychiolydd o'r Ysgrifenyddiaeth yn ogystal ac aelod o'r Is-grwp Sgiliau yn mynychu.

4.8 Targedu Blaenoriaeth 5: Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy (ERDF):
Yng nghyfarfod y Pwyllgor Monitro Rhaglen (PMC) ar 06 Rhagfyr 2007 cyflwynwyd papur gan WEFO ar ddulliau o dargedu'r adnoddau o fewn y Flaenoriaeth fyddai'n disodli barn y Grwpiau Cynllun Gofodol.

4.9 Tynnir sylw'r aelodau ar atodiad 2 syn amlinellu'r penderfyniad ynghyd a thrafod y goblygiadau i Wynedd.

4.10 Canllawiau Monitro Cynllun a Systemau Rheoli
Tynnir sylw'r aelodau bod y canllawiau bellach ar gael ar wefan WEFO. Amcan y canllawiau ydi sicrhau fod cynlluniau yn cael eu strwythuro a'u rhedeg yn gywir fel eu bod yn cydymffurfio â rheolau'r Comisiwn, gan leihau'r risg o adfachu cyllid. Mae gwybodaeth bellach ar gael trwy; www.wefo.wales.gov.uk/default.asp?action=page&ID=2175

5. Cynllun Datblygu Gwledig Cymru

5.1 Yn dilyn derbyn cefnogaeth yr Aelodau i Gynllun Busnes a Phrosiectau Arfaethedig Gwynedd ar lefel y Cynllun Datblygu Gwleig fe'u cyflwynwyd i LICC ar y 30ain o Dachwedd, 2007. Yn bresennol mae swyddogion y LICC yn asesu addasrwydd y prosiectau unigol cyn ystyried y Cynllun Busnes. Nid oes unrhyw adborth wedi dod i law hyd yn hyn.

5.2 Deallir fod trafodaethau rhwng LICC a'r Comisiwn Ewropeaidd ar gynnwys y Cynllun Datblygu Gwledig yn parhau ond maent yn dal i ddisgwyl derbyn cymeradwyaeth mis Mawrth.

6. Argymhelliad

6.1 Aelodau'r Bartneriaeth i derbyn cynnwys yr adroddiad

Gweithdai Blaenoriaeth 4 Them 3 (Environment for Growth) - ERDF

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Croeso Cymru, Cyngor Cefngwlad Cymru (CCW), Asiantaeth yr Amgylchedd a CADW yn gweithio ar hyn o bryd i ddatblygu pump cynllun ymbarel ar y cyd trwy Flaenoriaeth 4 Them 3 Rhaglen Cydgyfeiriant ERDF.

1.2 Mae grŵp llywio wedi cyfarfod ers Hydref 2007 i ddatblygu'r cynnigion. Prif dasg y grwp ydi adnabod unrhyw orgyffwrdd neu gyd-symud rhwng y pum cynllun.

1.3 Mae'r pum cynllun arfaethedig ynghyd a syniad bras o'r cyllid maent yn chwilio amdano wedi ei nodi isod;

- Twristiaeth Treftadaethol (CADW)
- Twristiaeth Bywyd Gwyllt / Cymunedau a Natur (CCW)
- Mynediad i'r Arfordir (CCW a LICC)
- Twristiaeth Arfordirol (Croeso Cymru)
- Twristiaeth Gynaliadwy (Croeso Cymru)

1.4 Tynnir sylw'r aelodau mai dim ond £54 miliwn sydd i'w gael o fewn y rhan yma o'r rhaglen, mae'r pum cynllun yma yn debygol o dargedu cyfradd uchel o'r adnoddau ar gael.

1.5 Bu i'r grwp llywio gynnal pum gweithdy prosiect rhwng y 3ydd a'r 9fed o Ionawr, gyda'r bwriad o fireinio'r syniadau cychwynnol cyn cychwyn ar broses ymgynghori ehangach gyda phartneriaid posib.

2. Manylion y cynlluniau arfaethedig (Drafft)

2.1 Twristiaeth Treftadaethol (CADW)
Cynnwys Prosiect Gwaith i gynnwys datblygu a gweithredu cynllun dehongli cenedlaethol, gwella mynediad ffisegol a dealltwriaeth i leoliadau treftadaeth, marchnata a chynlluniau hyrwyddo ar gyfer twristiaeth ddiwylliannol gan gynnwys hwyluso er mwyn cael pecynnau twristiaeth ddiwylliannol integredig, datblygu rhwydweithiau lleol a rhanbarthol i farchnata a datblygu cynnyrch diwylliannol yn ogystal a datblygu prosiectau cadwraeth cymunedol.

2.2 Twristiaeth Bywyd Gwyllt / Cymunedau a Natur (CCW)
Cynnwys Prosiect Gwaith i gynnwys datblygu neu wella inadeiledd gwyrdd (llwybrau, ffyrdd seiclo, gwarchodfeydd natur, llwybrau ceffyl a atyniadau treftadaeth naturiol) yn ogystal a hyrwyddo profiad ymwelwyr a'i mwynhad o'r amgylchedd naturiol.

2.3 Mynediad i'r Arfordir (CCW a LICC)
Cynnwys Prosiect Gwaith i gynnwys creu llwybr arfordir Cymru gyfan, cysylltu llwybrau presennol a chreu llwybr hir o amgylch arfordir Cymru. Rhannau arbennig at ddefnydd seiclwyr, marchogwyr a rhai mewn cadair olwyn.

2.4 Twristiaeth Arfordirol (Croeso Cymru)
Cynnwys Prosiect Gwaith i gynnwys datblygiad a hyrwyddiad chwaraeon dwr cefnogaeth ar gyfer menter y Moroedd Gwyrdd (cefnogi prosiectau i wella mynediad i draethau, isadeiledd a chyfleusterau i gyfarfod ac anghenion Baner Las a meini prawf Arfordir Gwyrdd, samplo dwr a thaclo llygredd), cefnogaeth i 2 Barc Hamdden Arfordirol a gwelliannau i reolaeth arfordirol.

2.5 Twristiaeth Gynaliadwy (Croeso Cymru)
Cynnwys Prosiect Gwaith i ddatblygu a hyrwyddo twristiaeth weithgaredd, datblygu rheolaeth cyrchfan effeithiol, lleihau ardrawiad amgylcheddol trwy systemau rheoli a rhannu gwybodaeth i ymwelwyr effeithiol.

3. Sylwadau cyffredinnol yn dilyn y gweithdai

3.1 Daw'r sylwadau o grynodeb gan Lowri Gwilym, Swyddog Polisi, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;

- Bydd y pum prosiect yn rhai ymbarel, gyda phrosiectau llai yn gallu yn ymgeisio am gyllid trwyddynt.
- Mae'r cais gan y CCW 'Cymunedau a Natur' i'w weld yn fwy aeddfed ar hyn o bryd.
- Mae ymwybyddiaeth o'r cyswllt gyda'r Cynllun Gofodol yn hanfodol.
- Mae angen bod yn glir ynglyn able mae'r prosiectau yn cyd symud ac o bosib yn gorgyffwrdd.
- Diffyg eglurder ar y strwythur gweithredu a rheoli, dim arwydd os bydd bwrdd ar gyfer pob prosiect.

4. Camau Nesaf

4.1 Bydd meini prawf dewis yn cael eu datblygu ar gyfer pob un o'r pum cynllun ymbarel i werthuso'r cynlluniau llai fydd yn ymgeisio am gyllid trwyddynt. Bydd sylw arbennig yn cael ei roi i gynaladwyaeth prosiectau.

4.2 Bydd digwyddiadau ymgynghori yn cael eu cynnal ym mis Mawrth, gyda gobaith o gyflwyno 'Datganiadau Diddordeb' ar gyfer y pum prosiect ym mis Ebrill. Wedi hynny bydd Swyddog Datblygu Prosiect yn cael eu roi ar waith i ddatblygu cynllun busnes fel gall y prosiectau fynd yn eu blaenau.

Targedu Blaenoriaeth 5: Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy (ERDF) Goblygiadau i Wynedd

1. Cefndir

1.1 Mae Rhaglen Cydgyfeiriant ERDF - Blaenoriaeth 5 yn cynnwys £114miliwn o gyllid dros gyfnod saith mlynedd (2007-2013), sy'n cyfateb i tua 13% o gyfanswm o'r rhaglen ERDF. Mae'r flaenoriaeth yma'n gweithio i gefnogi adfywio tymor hir integredig a chefnogi datblygiad economaidd.

1.2 Mae Blaenoriaeth 5 wedi'i rannu i ddwy them;

- Thema 1 - **Adfywio Ffisegol (Cynnwys adfywio canol tref)**: sydd yn cefnogi adfywio amgylchedd ffisegol ardaloedd fel rhan o strategaeth adfywio integredig.
- Thema 2 - Datblygu Economaidd Cymunedol: sydd yn anelu i adeiladu cymunedau cynaliadwy a bywiog trwy wella mynediad a safon gwasanaethau a chynyddu cyfraniad y trydydd sector.

1.3 Nodir yn Nogfen Weithredol y Rhaglen bydd gweithgareddau a chefnogi'r trwy law Blaenoriaeth 5 yn cael eu cyfeirio at yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r cymunedau ble bydd gweithgareddau yn debygol o gael yr effaith mwyaf. Awgrymir yn y ddogfen fod Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, ynghyd â adroddiadau Arsyllfa Gwledig Cymru, yn cynnig darlun o'r ardaloedd gydag anghenion arbennig. Cydnabyddir, fodd bynnag, yn y ddogfen fod gwahaniaeth yn natur amddifadedd (a'r ymateb sydd ei angen) rhwng cymunedau gwledig a threfol.

1.4 I sicrhau fod y defnydd o'r mesur yn briodol i amgylchiadau lleol nodir yn y Ddogfen Weithredol mai Grwpiau Ardal y Cynllun Gofodol fydd yn gyfrifol am flaenoriaethu ymhob ardal drwy ddatblygu *Fframweithiau Strategol Adfywio Cynaliadwy*.

1.5 Yn Fframweithiau Strategol Adfywio Cynaliadwy Canol a Gogledd Cymru awgrymir rhai ardaloedd blaenoriaeth ond, yn ogystal, nodir yr angen am fesurau i sicrhau cymorth ehangach er mwyn adlewyrchu natur ein cymunedau gwledig.

2. Crynodeb o benderfyniad y Pwyllgor Monitro Rhaglen ar dargedu adnoddau

2.1 Yng nghyfarfod y Pwyllgor Monitro Rhaglen (PMC) ar 06 Rhagfyr 2007 cyflwynwyd papur gan Swyddfa Gyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) ar ddulliau o dargedu'r adnoddau o fewn y Flaenoriaeth fyddai'n disodli barn y Grwpiau Cynllun Gofodol. Mae'r dull argymhellwyd gan WEFO wedi ei nodi fel Opsiwn D isod ac y mae wedi ei selio yn llwyr ar ganlyniadau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2005 (WIMD 2005):

- A Targedu cronfeydd trwy raglenni adfywio Adran Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru (Pennau'r Cymoedd a Môn/Menai).
- B Targedu adnoddau ar sail Ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf.
- C Dewis yr ardaloedd unigol bychan mwyaf difreintiedig trwy ddiffiniad WIMD 2005.

- **D Dewis yr ardaloedd unigol bychan mwyaf difreintiedig trwy ddiffiniad WIMD 2005, yna eu clystyru neu gynyddu maint yr ardal i fod yn fwy cydlynol yn nhermau cymunedau neu gynlluniau adfywio ffisegol.**

2.2 Er mwyn gweithredu Opsiwn D mae Llywodraeth y Cynulliad wedi adnabod 44 ardal fydd yn gymwys i dderbyn cefnogaeth (33 yn ardal y Cymoedd, 6 yn y De Orllewin, 5 yn y Gogledd a 0 yn y Canolbarth - Gweler Atodiad A). **Dwy ardal yn unig o Wynedd sydd wedi eu hadnabod drwy law'r dull yma (Bangor a Caernarfon)**

2.3 Cynigir fod **80%** o'r cyllid sydd ar gael (tua £91 miliwn) yn cael ei rannu i gynlluniau o fewn y 44 anheddiad gyda'r **20%** sy'n weddill (tua £23 miliwn yn unig) ar gael i weddill Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Awgrymir yn y papur y bydd y Cynllun Datblygu Gwledig yn darparu cymorth i ardaloedd gwledig na fydd yn elwa o ganlyniad i'r penderfyniad (*nodir, fodd bynnag mai dim ond oddeutu £73M ledled Cymru sydd ar gael ar gyfer holl weithgaredd datblygu economaidd [Echel 3] y Cynllun hyd at 2013).*

2.4 Mae'n ansicr o'r papur a yw'n fwriad i'r dull yma o dargedu adnoddau yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr holl o Flaenoriaeth 5 ynteu Them 1 a rhan o Them 2 yn unig. Rhaid disgwyl am gadarnhad trwy gofnodion swyddogol y PMC am arweiniad pellach. Mae'n amlwg fod cysylltiad rhwng Thema 1 a'r rhan gyntaf o Thema 2 ond mae'n debygol y bydd adnoddau Them 2 yn dilyn buddsoddiad Them 1 i gyflawni'r bwriad o sicrhau cynlluniau adfywio integredig.

2.5 Cytunodd y PMC i adolygu'r sefyllfa ymhen 18 mis.

3. Goblygiadau

3.1 Mae targedu cyllid yn y dull yma yn anfanteisiol i ardaloedd gwledig ac yn groes i ddymuniad awdurdodau lleol gwledig a Grwpiau Ardal Cynllun Gofodol Gogledd a Canol Cymru. Bydd yn cyfyngu'r budd mwyaf i nifer fechan o ardaloedd trefol, sy'n cynnwys trefi a dinasoedd mawr fel Abertawe a Llanelli.

3.2 Fel sydd wedi ei nodi ym mhwynt 2.2 mae dwy ardal o Wynedd wedi'i gynnwys yn y 44 ardal sydd i dderbyn 80% o'r cyllid. Mae Cyngor Gwynedd yn croesawu dynodiad Bangor a Chaernarfon, yn cydnabod eu hanghenion ac eisoes rydym yn datblygu cynlluniau adfywio ffisegol priodol.

3.3 Mae'r ardaloedd hyn, fodd bynnag, eisoes wedi eu dynodi'n flaenoriaeth gan nifer o gynlluniau Llywodraeth y Cynulliad gan gynnwys y rhaglen Môn Menai. O ganlyniad mae'r Cyngor wedi bod yn ymdrechu i sicrhau fod gofynion adfywio ardaloedd eraill sydd gydag anghenion gwirioneddol yn y sir; gan gynnwys ein cymunedau ôl diwydiannol (Blaenau Ffestiniog, Penygroes, Bethesda, ayyb) aneddiadau arfordirol (Abermaw, Tywyn, Pwllheli, ayyb) a'n canolfannau gwledig (Dolgellau, Bala, a'n pentrefi cefn gwlad) hefyd yn derbyn sylw. O fewn yr ardaloedd hyn byddai'r Cyngor wedi dymuno sefydlu cronfa briodol ar gyfer cynlluniau megis Adwy Cyf. fyddai wedi cynnig cymorth i adfer eiddo segur i ddefnydd a gwella'r amgylchedd. Yn ogystal, roedd yn ddymuniad paratoi cynllun adfywio ffisegol penodol i Flaenau Ffestiniog. Bydd penderfyniad y PMC yn llesteirio ein gallu i gyflawni ein dymuniadau.

Gwybodaeth ychwanegol:

- Rhaglen Weithredol ERDF Cydgyfeirio 2007 - 2013: http://www.wefo.cymru.gov.uk/default.asp?action=page&ID=2068
- Fframwaith Strategol Adfywio Cynaliadwy Gogledd Cymru: http://www.wefo.cymru.gov.uk/frameworks/SustainableRegeneration.htm
- Papurau Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru 06 Rhagfyr 2007 (gweler papur [07]11): http://www.wefo.cymru.gov.uk/default.asp?action=page&ID=2165
- Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2005: http://www.dataunitwales.gov.uk/cym/WimdProject.asp?id=2077
- Arsyllfa Gwledig Cymru: http://www.walesruralobservatory.org.uk/

Prawf Iechyd ar Ddiwygiad y Polisi Amaeth Cyffredin (PAC) a Datblygu Gwledig

1. Cefndir

1.1 Cafodd y Prawf Iechyd ar ddiwygiad y Polisi Amaeth Cyffredin (PAC) ei lansio gan Mariann Fischer Boel, Comisiynydd Ewrop ar Amaeth a Datblygu Gwledig ar yr 20fed o Dachwedd, 2007. Pwrpas y Prawf Iechyd yma ydi addasu'r PAC i'r amgylchiadau a'r heriau wynebir yn ystod y cyfnod rhwng 2008 a 2013.

1.2 Dylid nodi nad bwriad y Prawf Iechyd ydi newid cyfeiriad y PAC nag ychwaith i symbylu newidiadau a diwygiadau sylfaenol fel yn 2003, cyfeirir ato mewn gwirionedd fel ymarfer i gau pen y mwdwl ers y diwygiad diwethaf.

1.3 Rhaid cofio nad ydi'r broses yma yn digwydd ar ei phen ei hun, mae nifer o ffactorau sy'n golygu fod gan y Prawf Iechyd oblygiadau pellgyrhaeddol. Bydd adolygiad y gyllideb yn codi nifer o gwestiynau ar wariant cyfan yr Undeb Ewropeaidd (UE) lle mae PAC yn cyfrif am y rhaniad fwyaf.

1.4 Daw'r cyfnod ymgynghori cychwynnol i ben ar y 15fed o Ionawr, 2008, gyda'r ffocws yn cael ei roi ar dri chwestiwn ynghyd a chynigion allweddol.

2. Cwestiynau Allweddol

2.1 Gofynna'r Prawf Iechyd o safbwynt diwygio'r PAC;

- Sut i wneud y system cymorth uniongyrchol yn symlach ac yn fwy effeithiol?
- Sut i wneud y teclynnau cefnogi marchnad gafodd eu datblygu'n wreiddiol ar gyfer cymuned o chwe gwlad yn berthnasol i'r byd rydym yn byw ynddo nawr?.
- Sut i wynebu heriau newydd yn enwedig newid hinsawdd, biodanwydd, rheolaeth dŵr a gwarchodaeth bioamrywiaeth?.

3. Cynigion Allweddol

3.1 Gall y cynigion yma gan y Comisiwn eu rhannu i bedwar prif gategori;

3.11 Addasiadau i'r Cynllun Taliad Sengl i'w wneud yn fwy effeithiol, effeithlon a syml gan gynnwys traws gydymffurfiad ynghyd â chysidro sgôp dadgyplu pellach.

3.12 Cynigion ar gyfer y prif gyfundrefnau marchnad yn cynnwys polisi llaeth a thir âr gyda hawliau neilltuir (Set aside)

3.13 Materion a gysylltir â modiwleiddio, gwariant a'r gyllideb.

3.14 Heriau newid hinsawdd, cynnydd mewn biodanwydd a rheolaeth dŵr trwy addasu i risg a chyfleoedd.

3.2 Tynnir sylw'r aelodau y rhennir y PAC i ddau biler (Piler 1 - Taliadau i Ffermwyr a Philer 2 - Cynlluniau amaeth-amgylchedd a Datblygu Gwledig). Mae'r hyn a gyfeirir ato yn 3.13 uchod gyda goblygiadau i'r Cynllun Datblygu Gwledig fel y saif a hyn o bryd.

3.3 Mae cyllideb y PAC wedi ei benodi hyd at 2013, sy'n golygu bydd unrhyw ychwanegiad at gyllid datblygu gwledig yn cael ei wneud trwy Fodiwleiddio Gorfodol (Trosglwyddiadau rhwng Piler 1 a 2). Mae graddfa Modiwleiddio Gorfodol wedi ei osod ar 2% ar lefel yr UE ar gyfer 2007 i 2013, ond mae Llywodraeth Prydain wedi dewis cynyddu hyn trwy Fodiwleiddio Gwirfoddol. Bydd gan Gymru gyfradd o 4.2% yn ychwanegol yn 2009, nid yw'n glir os bydd cefnogaeth i barhad Modiwleiddio Gwirfoddol.

4. PAC a Datblygu Gwledig

4.1 Mae gan y broses o gynnal Prawf Iechyd ar y PAC felly gyswllt clir gyda'r cysyniad o Ddatblygu Gwledig o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r aelodau eisoes yn ymwybodol o'r Cynllun Datblygu Gwledig (gyllidir trwy Biler 2) fel un o'r prif raglenni fydd yn weithredol yng Nghymru yn ystod y cyfnod 2007 i 2013.

4.2 Gweithredir y cynllun trwy Gronfa Amaethyddol Ewropeaidd i Ddatblygiad Gwledig (EAFRD). Nid yw'n rhan o'r cronfeydd strwythurol (ERDF a ESF).

4.3 Mae cyllideb EFRD y Comisiwn ar gyfer rhaglenni Datblygu Gwledig yn cael ei ategu trwy gyllid cyhoeddus a phreifat o fewn gwledydd yr Undeb, golyga hyn fod €211.4 biliwn ar gael i wario trwy'r UE.

4.4 Mae 94 o gynlluniau datblygu wedi eu cyflwyno, disgwylir i raglenni Cymru, Lloegr a'r Alban gael eu derbyn yn ystod 2008.

Gwybodaeth Bellach

Cynhelir digwyddiad i drafod y Prawf Iechyd ym Mhrifysgol Bangor ar y 28ain o Ionawr am 7:30p.m - I wybod mwy cysylltwch â Cheryl Evans, Canolfan Gwybodaeth Ewropeaidd 01248 383 772. Bydd gwybodaeth pellach yn cael ei gylredeg gan yr Ysgrifenyddiaeth maes o law, bydd cynrychiolaeth o'r Ysgrifenyddiaeth yn mynychu.

Gwefannau

http://ec.europa.eu/agriculture/healthcheck/index_en.htm
http://ec.europa.eu/agriculture/rurdev/index_en.htm
http://europa.eu/pol/agr/overview_en.htm